
# Wyt ti'n gallu chwibanu?

Mae rhai pobl yn feistri ar y grefft! Mae ffermwyr mynyddoedd Cymru'n chwibanu gorchmynion i'w cŵn defaid - ac mae'r rheiny'n gwybod yn iawn beth maent i fod i'w wneud gan eu bod yn deall y gwahanol synau a'r tonau. Mae pobl eraill yn chwibanu darn o gerddoriaeth maent wedi ei glywed ar y radio, efallai, a phobl eraill yn chwibanu er mwyn tynnu sylw.

Ar un ynys yn yr Ynysoedd Dedwydd (y *Canary Islands* yn Saesneg), oddi ar Ogledd Affrica, mae pobl wedi bod yn cyfathrebu'n hollol naturiol â'i gilydd ers canrifoedd drwy chwibanu ac mae iaith chwibanu arbennig wedi datblygu. Enw'r ynys yw La Gomera, oddi ar arfordir Moroco ac enw'r iaith chwibanu yw Silbo.




La Gomera yw ynys ail leiaf yr Ynysoedd Dedwydd. Mae'n ynys hardd gyda mynyddoedd uchel a dyffrynnoedd dwfn a chul. Gan fod croesi'r dyffrynnoedd hyn yn anodd, datblygodd chwibanu yn ffordd effeithiol o gyfathrebu.

Mae'r Ynysoedd Dedwydd yn perthyn i Sbaen, a Sbaeneg yw eu hiaith swyddogol. Felly, mae'r synau sy'n cael eu creu drwy chwibanu'n cynrychioli geiriau a brawddegau Sbaeneg. Mae tôn a chryfder y chwibanu'n cyfrannu at yr ystyr hefyd. Yn wir, mae'n bosib clywed yr iaith yma am bellter o rai cilometrau.

Mae'r bobl yn medru cyfathrebu â'u hanifeiliaid drwy chwibanu hefyd, yn yr un modd ag y mae ffermwyr Cymry'n medru cyfathrebu â'u cŵn defaid - ond mae'r iaith honno'n wahanol i'r iaith sy'n cael ei defnyddio i siarad â phobl.

Wrth i'r ffôn symudol ddod yn fwy poblogaidd, dechreuodd yr iaith ddiflannu ar un adeg. Ond, oherwydd natur y dirwedd, nid yw'n bosib cael signal ym mhob rhan o'r ynys ac, felly, mae pobl yn dal i chwibanu ar ei gilydd. Yn wir, mae'n well gan yr hen bobl chwibanu na defnyddio ffôn!

Yn draddodiadol, mae rhieni a neiniau a theidiau wedi bod yn dysgu'r iaith i'r plant. Erbyn hyn, mae plant yn dysgu'r iaith chwibanu yn yr ysgolion - rhaid iddyn nhw ei dysgu - ac mae hyn yn sicrhau ei bod yn parhau. Byddai ei cholli yn golygu colli rhan o ddiwylliant yr ynys a doedd neb eisiau i hynny ddigwydd!

Nid ar yr ynys hon yn unig y mae pobl yn cyfathrebu â'i gilydd drwy chwibanu. Mae pobl sy'n byw ym mynyddoedd y Pyreneau yn Ffrainc, Mecsico, Groeg a Thwrci - ac mewn gwledydd eraill - yn chwibanu ar ei gilydd hefyd.

**Wyt ti'n gallu chwibanu?**